**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

27 Ionawr 2026

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru

Annwyl Mark

**Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon 2024-25**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i **adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2024-25.** Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu.

Mae'r Comisiwn yn nodi barn a sylwadau'r Pwyllgor ynghyd â'ch argymhellion o ran y Comisiwn. Rydym wedi rhoi sylw i'r rhain yn yr Atodiad sydd ynghlwm. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw fater a geir yn yr Atodiad, mae croeso ichi roi gwybod imi.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i roi sicrwydd i'r Pwyllgor ein bod yn parhau i fod mor ymrwymedig ag erioed i ddarparu mwy o eglurder a sicrwydd drwy waith craffu ac archwilio allanol, yn ogystal â thrwy ein fframwaith llywodraethu mewnol. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlir.

Yn gywir

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
prifweithredwrachlerc@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
chiefexecutiveandclerk@senedd.wales
0300 200 6565

## Atodiad 1

## Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon 2024-25

**Argymhelliad 1. Dylai Comisiwn y Senedd ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd ei Strategaeth Carbon Niwtral yn newid ar ôl Diwygio'r Senedd, er mwyn ymateb i'r her sy'n deillio o gynnydd sylweddol yn nifer yr Aelodau a swyddogion.**

Derbyniwyd.

Roeddem wedi cynllunio adolygiad canol tymor o'r Strategaeth Garbon, nid yn unig i adlewyrchu Senedd estynedig, ond hefyd i adlewyrchu agweddau a thechnolegau sy'n newid ers iddi gael ei chyhoeddi gyntaf. Byddwn yn cynnal yr adolygiad hwn yn 2026 ac yn diweddaru'r Strategaeth, yn sgil Diwygio'r Senedd a phenderfyniad ar brosiect llety Bae32. Byddwn yn siŵr o gynnwys yr Aelodau yn y broses hon ac yn hysbysu'r Pwyllgor o'r canlyniad.

**Argymhelliad 2. Dylai'r Comisiwn rannu gyda'r Pwyllgor unrhyw adolygiadau mewnol sydd wedi eu cynnal er mwyn asesu'r effaith ar allyriadau carbon parhaus y Comisiwn cyn yr etholiad.**

Derbyniwyd.

Byddwn yn cynnal adolygiad o'r Strategaeth Carbon Niwtral yn 2026 fel y cynlluniwyd, i adlewyrchu Senedd ehangach a chanlyniad proses gaffael Bae32. Byddwn yn hapus i rannu canlyniad yr asesiad hwn gyda'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 3. Dylai Comisiwn y Senedd roi gwybod i'r Pwyllgor hwn (neu ei olynydd) am unrhyw newidiadau i'w darged allyriadau carbon (Dangosydd Perfformiad Allweddol 14 ar hyn o bryd) a chynnwys rhagor o fanylion am sut y mae unrhyw darged newydd yn cael ei gyfrifo.**

Derbyniwyd.

Byddwn yn siŵr o drafod y broses adolygu gyda'r Pwyllgor ac unrhyw dargedau diwygiedig sy'n deillio o Strategaeth Carbon Niwtral wedi'i diweddaru, cyn eu gwneud yn rhan o'n hadroddiadau cyhoeddus.

**Argymhelliad 4. Dylai Comisiwn y Senedd ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw waith monitro sy'n cael ei wneud i ddeall yn well pam nad yw cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn arwain at gynnydd cymesur mewn penodiadau.**

**Dylai'r wybodaeth hon gael ei darparu cyn craffu ar y cyfrifon blynyddol a dylai gynnwys gwybodaeth am unrhyw gamau sylweddol sy'n cael eu cymryd gan y Comisiwn.**

Derbyniwyd.

Mae'r Comisiwn yn parhau i fonitro cyfraddau trosi o gais i gynnig ar gyfer ymgeiswyr ethnig lleiafrifol (a'r rhai o nodweddion gwarchodedig eraill). Bydd y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei waith monitro, ei ganfyddiadau a'i gamau gweithredu cyn craffu ar y cyfrifon blynyddol.

**Argymhelliad 5. Dylid adolygu prosesau recriwtio Comisiwn y Senedd er mwyn deall yn well a ydynt yn darparu'r addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar ymgeiswyr niwrowahanol. Dylai'r adolygiad hwn geisio barn pobl niwrowahanol sydd wedi ymgeisio am swyddi a chael eu penodi i swyddi, er mwyn sicrhau bod profiad bywyd y garfan hon yn cael ei adlewyrchu'n llawn.**

Derbyniwyd.

Mae'r Comisiwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o brosesau recriwtio sy'n cynnwys addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr niwroamrywiol a phob anabledd arall.

Yn unol â'n dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'r Comisiwn hefyd yn cryfhau gweithdrefnau i nodi a dileu rhwystrau yn rhagweithiol i unigolion anabl a niwroamrywiol ym mhob cam o gyflogaeth, gan gynnwys recriwtio. Mae adolygiadau mewnol diweddar wedi tynnu sylw at yr angen am brosesau cliriach, cyfathrebu gwell, a chyllid canolog ar gyfer addasiadau er mwyn osgoi oedi ac anghysondeb. Fel rhan o'n cynllun gweithredu, rydym yn:

- Canoli'r gyllideb ar gyfer addasiadau rhesymol o fewn Adnoddau Dynol i sicrhau darpariaeth amserol a chael gwared ar rwystrau ariannol.
- Gwella hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i reolwyr recriwtio ynghylch rhwymedigaethau cyfreithiol ac arfer gorau.
- Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys Iechyd Galwedigaethol ac Adnoddau Dynol, er mwyn sicrhau bod addasiadau'n cael eu nodi a'u gweithredu'n effeithiol.
- Datblygu dull mwy rhagweithiol o ddarparu offer ergonomig a thechnolegau cynorthwyol.

Bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan Grŵp Llywio Addasiadau Rhesymol sydd newydd ei ffurfio.

**Casgliad 1. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad yn ei Adroddiad Etifeddiaeth yn gofyn i'r Pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor hwn fonitro gwariant y Comisiwn gyda chyflenwyr yng Nghymru.**

Nodwyd.